Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymholiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

**Sylwadau cyffredinol**

Rwy'n mawr groesawu'r newidiadau a gynigir yn y Bil. Rwyf hefyd yn croesawu'r asesiad effaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar effaith y newidiadau arfaethedig ar awdurdodaeth fy swyddfa. Mae fy sylwadau yn ymdrin â Rhan 4 y Bil. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cynnig sylwadau cyffredinol ar Ran 6, 7 a 8.

**Rhan 4: Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol**

<u>Is-adran 65 a 67</u>

Mae fy mhrofiad o ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â thoriadau honedig o'r Cod Ymddygiad yng Nghymru yn awgrymu bod gan arweinyddion y grwpiau gwleidyddol rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Gan hynny, rwy'n croesawu'r cynnig y dylai'r sawl sydd mewn safle o arweinyddiaeth a dylanwad o fewn prif gyngor fod â chyfrifoldeb o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac

amrywiaeth a goresgyn bwlio ac aflonyddu ymhlith aelodau etholedig a staff cyngor.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cynnig i roi dyletswydd ar arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau eu grŵp.

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn datgan, wrth wneud hynny, mae rhaid i arweinyddion y grwpiau gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor ac ystyried unrhyw ganllaw a gyhoeddir gan Weinidogion yng Nghymru.

- O gofio fy nghyfrifoldeb dros ymchwilio cwynion Cod Ymddygiad, byddwn yn croesawu darpariaeth yn y Bil a fydd yn gwneud hi'n ofynnol i arweinyddion grŵp ystyried canllaw statudol a gyhoeddir o dan adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

<u>A 68</u>

Rwy'n croesawu'r cynigion i ymestyn rôl y pwyllgorau safonau ledled Cymru. Mae arfer mewn cysylltiad â safonau llywodraeth leol yn amrywio ledled Cymru, ac yn fy marn i, bydd gofyn i bwyllgorau safonau adrodd yn flynyddol yn cynorthwyo o ran ymgorffori diwylliant o safon uchel ymhlith prif gynghorau. Bydd hefyd yn darparu ffordd i bwyllgorau safonau ledled Cymru adlewyrchu ar eu perfformiad blynyddol, yn ogystal â dysgu wrth arfer gorau. I ategu hyn,

- Rwy'n credu y byddai'n fuddiol pe bai adroddiadau blynyddol y pwyllgorau safonau yn cynnwys, fel mater o drefn, wybodaeth ar gwynion Cod Ymddygiad a dderbynnir gan fy swyddfa, yn ogystal â chanlyniadau'r cwynion hyn.

<u>A 69</u>

Fel y nodir yn nodyn esboniadol y Bil, diddymwyd is-adran 60 - 63 Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er i Orchymyn OGCC (Ymchwiliadau Safonau) 2006 (fel y'i diwygiwyd) gynnal effaith isadran 60-63 yng Nghymru, bu'r Ddeddf yn anghyraeddadwy yng Nghymru ac yn anodd ei leoli ar gronfeydd data sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn hyn o beth, rwy'n croesawu i'm mhryderon gael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru ac rwy'n cefnogi'r cynnig i roi'r darpariaethau diwygiedig yng Ngorchymyn 2006 ar wyneb Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Er na chynigir unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r darpariaethau yng Ngorchymyn 2006, yn fy marn i, mae'r diwygiadau o fewn Atodlen 8 y Bil arfaethedig yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod y darpariaethau sy'n berthnasol i fy ymchwiliadau yn ymwneud ag aelodau etholedig yn torri'r Cod Ymddygiad, yn adlewyrchu'r darpariaethau sy'n berthnasol i fy ymchwiliadau sy'n ymwneud â chamweinyddu neu fethiant gwasanaeth yn Neddf OGCC 2019.

<u>A 72</u>

Yn olaf, rwy'n croesawu'r cynigion i roi cynlluniau hyfforddi i gynghorau cymuned. Mae nifer o'r achosion yn ymwneud â chynghorau tref a chynghorau cymuned a ystyriwyd gan fy swyddfa wedi dangos diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith y Cod, e.e. mewn cysylltiad â'r dyletswyddau i ddatgan buddiannau.

**Rhan 6: Perfformiad Prif Gynghorau a'u llywodraethu**

Mae’r Bil yn caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau arbennig i brif gynghorau a chydweddu’r swyddogaeth hon â’r rheolyddion perthnasol.

Mae cyswllt rheolaidd rhwng fy swyddfa a swyddfa’r Archwilydd Cyffredinol ar faterion sydd o gyd-ddiddordeb. Ymhellach, mae Deddf OGCC 2019 yn fy nghaniatáu’n benodol i hysbysu, ymgynghori a gweithio ar y cyd â’r Archwilydd Cyffredinol mewn achosion lle rwy’n ystyried hynny’n briodol.

- Pan fydd archwiliadau arbennig yn datgelu tystiolaeth o gamweinyddu systematig neu fethiant gwasanaeth, hoffaf bwysleisio y dylai’r Archwilydd Cyffredinol allu rhannu’r wybodaeth berthnasol â’m swyddfa a chyfeirio materion o’r fath ataf, fel bo’n briodol.

**Rhan 5: Cydweithio gan Brif Gynghorau; a Rhan 7: Uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd**

Er fy mod, ar y cyfan, yn croesawu’r diwygiadau arfaethedig yn Rhan 5 a 7 y Bil, hoffaf bwysleisio na ddylid ffiniau cyfrifoldeb ar gyfer swyddogaethau’r cynghorau gael eu cymylu gan gydweithio rhwng y prif gyghorau ac uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd. Yn ogystal, ni ddylid cael effaith adwyol ar fynediad y cyhoedd at gyfiawnder. Fel bod y cyhoedd yn cael cadw eu hawl i gwyno i’m swyddfa, dylid unrhyw drefniadau newydd ddod o fewn y diffiniadau yn Atodlen 3 y Ddeddf OGCC 2019.

Hefyd, hoffaf geisio sicrwydd y byddai unrhyw drefniadau trawsnewidiol sy’n cyd-fynd ag uno neu ailstrwythuro prif ardaloedd yn sicrhau parhad unrhyw ymchwiliad parhaus gan fy swyddfa. Rwy’n nodi bod a 145(5)(c) o’r Bil yn manylu y gallai unrhyw reoliadau uno ac ailstrwythuro a wneir gan Lywodraeth Cymru gynnwys darpariaeth ar gyfer achosion sifil neu achosion troseddol a ddechreuwyd gan un o’r prif gynghorion, neu yn erbyn un o’r prif gynghorion, i’w parhau gan un o’r prif gynghorion, neu yn erbyn un o’r prif gynghorion .

- Rwy’n croesawu darpariaeth ychwanegol yn yr adran hon a fyddai’n diogelu parhad yr holl ymchwiliadau presennol, gan gadarnhau’r angen i sicrhau bod ffiniau cyfrifoldeb y dyfodol yn glir.

**Sylwadau cloi**

Rwy’n hyderu y byddwch chi yn gweld fy sylwadau yn ddefnyddiol. Os dymunwch drafod unrhyw un o’r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, Pennaeth Polisi [redacted]



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Rhagfyr 2019**

*********************************************************************************